# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gymraeg y Tymbl

## Adroddiad Gwrthwynebu



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


1. CRYNODEB GWEITHREDOL .......... 2
2. CEFNDIR .......... 2
3. Y CYFNOD GWRTHWYNEBU .......... 3
4. DADANSODDI'R YMATEBION .......... 3
5. YR ADRODDIAD GWRTHWYNEBU .......... 4
6. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL .......... 5
7. CRYNODEB O'R SYLWADAU CEFNOGOL A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL .......... 9
8. OPSIYNAU ERAILL .......... 13
9. CASGLIAD .......... 13
10. ARGYMHELLIAD .......... 13
11. Y CAMAU NESAF .......... 14

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4-11 i 3-11. Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori ar 26 Ionawr 2026, cytunodd aelodau Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Ar y cyfan, roedd y gyfradd ymateb yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn isel iawn, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig. Dim ond un gwrthwynebiad ddaeth i law. Mynegodd y gwrthwynebydd bryderon na fyddai ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl i dderbyn plant 3 oed er budd pennaf y plant. Cyfeiriodd at dystiolaeth ryngwladol sy'n awgrymu bod dechrau'r ysgol yn hŷn yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl, hunanreoleiddio, a deilliannau academaidd, a bod dechrau'r ysgol yn gynharach yn gallu cynyddu risgiau i'r disgyblion ieuengaf ac ehangu anghydraddoldebau. Cyfeiriwyd at ganfyddiadau astudiaethau yn Nenmarc a Norwy sy'n cysylltu dechrau'r ysgol yn hŷn â llai o achosion o ddiagnosis ADHD, gwell canolbwyntio, a sgoriau uwch mewn profion, ynghyd â chymariaethau rhyngwladol sy'n dangos bod llawer o systemau addysg uchel eu perfformiad yn dechrau addysg ffurfiol yn hwyrach.

Roedd y gwrthwynebiad hefyd yn pwysleisio y gallai derbyn plant 3 oed greu pwysau sylweddol o ran costau, staffio, cydymffurfiaeth a seilwaith, dyblygu darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a rhoi straen pellach ar sector sydd eisoes yn wynebu heriau ariannu. Awgrymodd y gwrthwynebydd y byddai cadw ystod oedran bresennol yr ysgol, sef 4–11 oed, a chryfhau lleoliadau blynyddoedd cynnar lleol a threfniadau pontio, yn ddull mwy priodol yn ddatblygiadol a mwy cynaliadwy yn ariannol.

## 2. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a gynhaliwyd rhwng 10 Chwefror 2026 a 10 Mawrth 2026 mewn ymateb i'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4–11 i 3–11, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg feithrin ran-amser.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol a phroses y cyfnod gwrthwynebu, yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

## 3. Y CYFNOD GWRTHWYNEBU

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), rhoddodd y cyfnod gwrthwynebu gyfle i bawb gyflwyno gwrthwynebiad ar y cynnig.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ynghylch y cynnig ar 10 Chwefror 2026 am gyfnod o 28 diwrnod tan 10 Mawrth 2026.

Cafodd y ddogfen ei dosbarthu'n electronig i'r holl randdeiliaid a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau caled ar gael ar gais a chawsant eu harddangos ar ffens derfyn a gatiau'r ysgol. Roedd yr hysbysiad yn nodi manylion y cynnig a'r broses ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau.

## 4. DADANSODDI'R YMATEBION

Cafwyd cyfanswm o 3 sylw mewn ymateb i'r hysbysiad statudol; 1 yn gwrthwynebu'r cynnig a 2 yn ei gefnogi. Cyflwynwyd pob un o'r 3 sylw cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

| **Y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law** | | | |
|---|---|---|---|
| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | **Cyfanswm** |
| 1 | 0 | 0 | **1** |

Mae'r tabl isod yn nodi'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law.

| **Y Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law** | | | |
|---|---|---|---|
| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | **Cyfanswm** |
| 2 | 0 | 0 | **2** |

## 5. YR ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Mae'r adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r gwrthwynebiadau neu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law fel a ganlyn:

**Pryderon**

- **Thema 1 – Datblygiad a Llesiant Plant**
- **Thema 2 – Mae dechrau'r ysgol yn hŷn yn helpu dysgu**
- **Thema 3 – Cydraddoldeb a Thegwch**
- **Thema 4 – Pwysau ariannol, staffio a seilwaith**
- **Thema 5 – Nid yw'r cynnig yn cyd-fynd ag ymagwedd Cymru at y blynyddoedd cynnar**
- **Thema 6 – Y Dull Strategol a Ffefrir**

**Sylwadau Cefnogol**

- **Thema 1 – Mynediad at Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar**
- **Thema 2 – Datblygu sgiliau Cymraeg**
- **Thema 3 – Manteision Addysgol a Chymdeithasol**
- **Thema 4 – Cefnogaeth i'r cynnig i newid ystod oedran**

## 6. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi themâu'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny. Mae'r cyfrif ar gyfer pob thema yn adlewyrchu nifer yr ymatebion unigryw sy'n sôn amdani:

| **Pryderon a Godwyd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Pwynt** | **Y Pwynt a Godwyd** | **Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** | **% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** |
| **1.** | **Datblygiad a Llesiant Plant** | **1** | **33.3%** |
| Dywedodd y gwrthwynebydd y gall dechrau'r ysgol yn 3 oed gael effaith negyddol ar anghenion emosiynol a datblygiadol plant ifanc. Cyfeiriodd at ymchwil ryngwladol sy'n dangos bod plant sy'n dechrau'r ysgol yn hŷn yn aml yn cael llai o anawsterau o ran talu sylw a gorfywiogrwydd, yn llai tebygol o gael diagnosis ADHD, ac yn datblygu gwell hunanreoleiddio. Roedd o'r farn bod y disgyblion ieuengaf yn y grŵp blwyddyn yn arbennig o agored i hyn a gallent gael mwy o drafferth mewn amgylchedd ysgol. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch anghenion datblygiadol plant 3 oed. Mae'r ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei chyflwyno drwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, sy'n seiliedig ar chwarae yn benodol ac sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer dysgwyr cynnar. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed wedi'i chynllunio i gefnogi llesiant emosiynol, datblygiad cymdeithasol cynnar a phontio'n raddol i arferion ysgol drwy sesiynau rhan-amser byr. Rhaid i ysgolion fodloni gofynion cenedlaethol ar gyfer cymarebau staffio, cymwysterau ac amgylcheddau dysgu, gan sicrhau bod plant yn cael cymorth o safon uchel sy'n briodol i'w hoedran. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **2.** | **Mae dechrau'r ysgol yn hŷn yn helpu dysgu** | **1** | **33.3%** |
| Dadleuodd yr ymatebydd nad oes unrhyw fantais academaidd yn gysylltiedig â dechrau'r ysgol yn 3 oed. Mae tystiolaeth o sawl gwlad yn dangos bod plant hŷn fel arfer yn perfformio'n well mewn mathemateg a darllen cynnar, a bod dechrau'r ysgol yn hŷn yn cefnogi dysgu cynnar cryfach. Nodwyd bod systemau uchel eu perfformiad lle mae plant yn dechrau'r ysgol yn hŷn yn dangos deilliannau da heb addysg ffurfiol gynnar. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r dystiolaeth y cyfeiriwyd ati ynghylch dechrau'r ysgol yn hŷn mewn gwledydd eraill. Yng Nghymru, fodd bynnag, nid yw ysgolion yn darparu addysgu academaidd ffurfiol i blant 3 oed. Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn cael ei chyflwyno drwy Gwricwlwm i Gymru ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, sy'n blaenoriaethu chwarae, archwilio, datblygiad corfforol, a sgiliau cymdeithasol cynnar yn hytrach na chyfarwyddyd ffurfiol. Nod y dull hwn yw cefnogi parodrwydd datblygiadol plant wrth sicrhau mynediad teg at gyfleoedd dysgu cynnar o safon uchel. Mae darpariaeth ran-amser o dair oed yn anstatudol, a'r rhieni sy'n penderfynu o hyd a yw'n briodol i'w plentyn ac a ydynt yn dymuno gwneud cais am le rhan-amser yn yr ysgol. | | | |
| | | | |
| **3.** | **Cydraddoldeb a thegwch** | **1** | **33.3%** |
| Mynegodd y gwrthwynebydd bryderon bod plant iau mewn dosbarth yn aml yn wynebu mwy o heriau academaidd ac ymddygiadol. Dadleuodd y gall teuluoedd sydd â mwy o adnoddau osgoi dechrau'r ysgol yn gynnar, ond nid yw eraill yn gallu gwneud hynny, a allai ehangu anghydraddoldebau. Gallai caniatáu mynediad yn 3 oed gynyddu'r pwysau ar y plant ieuengaf a chreu gwahaniaethau annheg rhwng teuluoedd. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon am anghydraddoldebau posibl. Mae cynnig lleoedd meithrin rhan-amser yn yr ysgol yn cynyddu hygyrchedd i bob teulu, yn enwedig y rhai a allai wynebu rhwystrau wrth deithio i ddarparwyr eraill. Mae'r cynnig yn ehangu dewis y rhieni yn hytrach na'i gyfyngu, gan gynnwys ar gyfer teuluoedd sydd ar hyn o bryd yn teithio allan o'r dalgylch ar gyfer darpariaeth. Mae pob dysgwr, waeth beth fo'i oedran, yn cael ei gefnogi drwy ddulliau gwahaniaethol, systemau bugeiliol a threfniadau pontio sy'n canolbwyntio ar y plentyn i sicrhau profiadau teg a chynhwysol. | | | |
| | | | |
| **4.** | **Pwysau ariannol, staffio a seilwaith** | **1** | **33.3%** |
| Nododd nad yw derbyn plant 3 oed yn niwtral o ran cost. Byddai ar ysgolion angen staff blynyddoedd cynnar arbenigol, cymarebau oedolion-plant priodol, prosesau cydymffurfio ychwanegol, a newidiadau i adeiladau o bosibl. Nodwyd bod cyllid y blynyddoedd cynnar eisoes dan bwysau ac y byddai ehangu'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn dyblygu lleoedd meithrin presennol a ariennir, gan roi pwysau ychwanegol ar gyllidebau a darparwyr blynyddoedd cynnar lleol. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod angen amgylchedd dysgu addas, cymarebau a staffio priodol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar. Mae'r gofynion hyn eisoes wedi'u sefydlu yn y fframweithiau cynllunio a gweithredol ar gyfer ysgolion 3–11 ledled y sir. Mae'r dosbarth meithrin a gynigir yn rhan-amser ac yn anstatudol, sy'n cyfyngu ar bwysau ychwanegol ar gostau. Mae ysgolion yn cael eu hariannu drwy fecanweithiau blynyddoedd cynnar sefydledig, ac mae'r system gofal plant marchnad gymysg yn parhau i gael ei chefnogi, gan y gall rhieni barhau i gael mynediad at leoliadau preifat neu wirfoddol ar gyfer oriau a ariennir neu ofal cofleidiol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol o safbwynt ariannol neu ar seilwaith a fyddai'n atal gweithredu'r cynnig. | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. | **Nid yw'r cynnig yn cyd-fynd ag ymagwedd Cymru at y blynyddoedd cynnar** | **1** | **33.3%** |
| Dywedodd y gwrthwynebydd nad yw'r cynnig yn cyd-fynd â model blynyddoedd cynnar Cymru sy'n seiliedig ar chwarae, sy'n cael ei gyflwyno'n bennaf drwy gymysgedd o leoliadau ysgol a lleoliadau meithrin nas cynhelir. Roedd o'r farn bod symud plant 3 oed i'r gofrestr ysgol yn mynd yn groes i'r dull hwn, yn lleihau hyblygrwydd mewn darpariaeth leol, ac nad yw'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddysgu cynnar. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y cynnig yn cyd-fynd yn llawn â pholisi Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi darpariaeth gymysg a gyflwynir drwy leoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Mae'r Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm i Gymru eisoes yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus mewn meithrinfeydd mewn ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin a Chymru. Mae'r cynnig yn cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar ac yn helpu i sicrhau bod digon o ddarpariaeth yn yr ardal. Mae'n dal yn ofynnol i ysgolion gyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar chwarae sy'n gyson â fframweithiau blynyddoedd cynnar cenedlaethol. | | | |
| | | | |
| **6.** | **Y Dull Strategol a Ffefrir** | **1** | **33.3%** |
| Argymhellodd gadw'r ysgol fel lleoliad 4–11 oed a chefnogi plant 3 oed drwy leoliadau Meithrin y Cyfnod Sylfaen a lleoliadau Cynnig Gofal Plant sydd eisoes i'w cael. Dywedodd y byddai hyn yn fwy priodol yn ddatblygiadol, yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn cyd-fynd yn well â pholisi blynyddoedd cynnar. Awgrymwyd buddsoddi mewn trefniadau pontio a dysgu sy’n seiliedig ar chwarae rhwng lleoliadau meithrin a'r ysgol, yn hytrach na gostwng yr oedran dechrau ysgol. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yr awgrym i gadw'r ysgol fel darparwr 4–11 oed. Fodd bynnag, nod y cynnig yw mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar leol, cynyddu dewis i deuluoedd a chryfhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. Mae integreiddio darpariaeth feithrin yn cefnogi proses bontio fwy hwylus, nodi anghenion yn gynharach, a pharhad addysg cyfrwng | | | |

| |
|---|
| Cymraeg. Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar lleol yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn lleol, ac mae teuluoedd yn dal i allu dewis cael mynediad at ddarpariaeth nas cynhelir. Mae'r Awdurdod o'r farn mai'r newid a gynigir i'r ystod oedran yw'r opsiwn strategol mwyaf priodol a buddiol. |
| |

## 7. CRYNODEB O'R SYLWADAU CEFNOGOL A DDAETH I LAW AC YMATEBION YR AWDURDOD LLEOL

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny:

| Rhif y Pwynt | Y Pwynt a Godwyd | Ymateb yr Awdurdod Lleol | Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn | % yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn |
|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau Cefnogol** | | | | |
| **1** | **Mynediad at Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar** | | **2** | **66.7%** |
| Mae'n hanfodol bod darpariaeth blynyddoedd cynnar ar gael yn y pentref. Mae'r diffyg opsiynau lleol ar hyn o bryd yn ei gwneud hi'n anodd i deuluoedd gael mynediad at ddarpariaeth addas ar gyfer plant tair oed, yn enwedig o ystyried tirwedd a daearyddiaeth yr ardal. Nid yw teithio y tu allan i'r pentref yn syml, a gall hyn fod yn rhwystr i blant a rhieni. Byddai cael darpariaeth mewn sefydliad addysgu yn y pentref yn sicrhau bod plant iau yn gallu cael mynediad at addysg gynnar yn ddiogel, yn gyfleus, a heb heriau teithio diangen. | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r adborth sy'n cydnabod pwysigrwydd darpariaeth blynyddoedd cynnar hygyrch yn y gymuned leol. Mae'r cynnig yn sicrhau bod mwy o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg sy'n seiliedig ar chwarae ar gael yn y pentref, gan leihau'r angen i deuluoedd deithio i gael mynediad at ddarpariaeth addas. Mae hyn yn cefnogi mynediad teg ac yn helpu i sicrhau bod pob plentyn, gan gynnwys y rhai a allai wynebu rhwystrau daearyddol neu o ran trafnidiaeth, yn gallu elwa ar addysg y blynyddoedd cynnar o safon uchel yn agos at ei gartref. | | | |
| | | | |
| **2** | **Datblygu sgiliau Cymraeg** | **2** | **66.7%** |
| Mae'r ymatebwyr yn credu'n gryf yng ngwerth cyflwyno plant i'r Gymraeg mor gynnar â phosibl, yn enwedig mewn cymuned lle mae'r defnydd bob dydd yn gyfyngedig. Mae trochi cynnar yn rhoi'r cyfle gorau i blant ddatblygu sgiliau siarad Cymraeg naturiol a hyderus. Mae plant ifanc yn cymryd iaith i mewn yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu trochi o'r cychwyn cyntaf, ac mae cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dair oed yn gyfle hanfodol i gryfhau caffael y Gymraeg. Mae'r cysylltiad cynnar hwn yn arwain at fanteision hirdymor o ran hyder, rhuglder a chysylltiad plant â'r Gymraeg. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gefnogaeth gref i wella datblygu sgiliau Cymraeg o oedran ifanc. Mae darparu lleoedd meithrin yn Ysgol Gymraeg y Tymbl yn cynnig cyfle i blant drochi'n gynnar yn y Gymraeg, a phrofwyd bod hyn yn cryfhau caffael y Gymraeg a hyder yn y tymor hir. Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag ymrwymiadau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050, drwy gynyddu cyfleoedd i blant ddechrau eu haddysg cyfrwng Cymraeg cyn gynted â phosibl. | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3** | **Manteision Addysgol a Chymdeithasol** | **2** | **66.7%** |
| Mae ymatebwyr yn teimlo bod dechrau addysg yn gynharach mewn lleoliad ysgol meithringar yn cynnig manteision sylweddol. Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar yn helpu plant i ddatblygu eu galluoedd iaith, eu sgiliau cymdeithasol, a'u parodrwydd i ddysgu. Maent yn teimlo bod ymuno ag amgylchedd strwythuredig yn dair oed yn cefnogi datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol plant, gan eu helpu i ymgartrefu'n haws mewn addysg amser llawn yn nes ymlaen. Mae'r mewnbwn cynnar hwn yn darparu sylfaen gadarn sy'n gallu cael dylanwad cadarnhaol ar eu taith addysgol drwy gydol yr ysgol gynradd a thu hwnt. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y manteision a nodwyd gan ymatebwyr o ran datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol cynnar plant. Mae darpariaeth feithrin o safon uchel sy'n seiliedig ar chwarae yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, hyder cymdeithasol, parodrwydd cynnar i ddysgu a phontio'n hwylus i addysg amser llawn. Mae integreiddio darpariaeth feithrin yn amgylchedd yr ysgol yn galluogi parhad cymorth, nodi anghenion yn gynnar a lleoliad meithringar a chyson i ddysgwyr iau. | | | |
| | | | |
| **4** | **Cefnogaeth i'r cynnig i newid ystod oedran** | **2** | **66.7%** |
| Mae'r sylwadau cefnogol yn nodi eu bod yn cefnogi'n llawn y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4–11 i 3–11 gan eu bod yn credu y bydd y newid hwn o fudd i deuluoedd, ac y bydd yn cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac yn darparu'r cyfleoedd cynnar sydd eu hangen ar blant iau. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â her ymarferol cael mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a'r angen i hyrwyddo datblygu sgiliau Cymraeg o oedran cynnar. Ar y cyfan, mae hwn yn gam cadarnhaol ac angenrheidiol i'r ysgol a'r gymuned ehangach. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol a fynegwyd i'r cynnig. Mae newid yr ystod oedran yn cryfhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol, yn gwella dewis y rhieni, ac yn cynyddu mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng | | | |

| |
|---|
| Cymraeg. Mae cefnogaeth rhanddeiliaid i sicrhau bod mwy o ddarpariaeth ar gael yn lleol, gwell parhad addysg a chyfleoedd cynnar ar gyfer datblygu iaith yn adlewyrchu manteision arfaethedig y cynnig. Mae'r Awdurdod o'r farn bod y newid yn gam cadarnhaol i blant, teuluoedd a'r gymuned ehangach. |

## 8. OPSIYNAU ERAILL

Ni chafwyd unrhyw opsiynau eraill i'w hystyried yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

## 9. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datblygiad plant, cydraddoldeb, pwysau ar gyllid y blynyddoedd cynnar a chyd-fynd â pholisi blynyddoedd cynnar cenedlaethol. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth drwy gydol y cyfnod gwrthwynebu i ddangos y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr neu y byddai'n anodd ei reoli o fewn fframweithiau cynllunio, staffio neu gwricwlwm presennol yr ysgol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn cefnogi'r cynnig, gan gydnabod manteision darpariaeth blynyddoedd cynnar hygyrch yn y pentref, y cyfle i gryfhau trochi yn y Gymraeg o oedran cynharach, a'r effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol cynnar plant. Mae'r cynnig yn gyson ag ethos y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm i Gymru, sydd ill dau'n pwysleisio profiadau sy'n seiliedig ar chwarae sy'n briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr iau.

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y bydd ymestyn yr ystod oedran i gynnwys darpariaeth feithrin ran-amser yn gwella dewis y rhieni, yn gwella parhad dysgu, ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at nodau strategol ehangach, gan gynnwys cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a sicrhau digon o ddarpariaeth yn yr ardal leol.

Ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r farn a fynegwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod o'r farn y bydd y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4–11 i 3–11 yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar blant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

## 10. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, argymhellir y dylid ceisio cymeradwyaeth i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran

Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4–11 i 3–11 heb ddiwygiad. Nid oes unrhyw gynigion cysylltiedig a fyddai'n atal neu'n tanseilio gweithredu'r cynnig.

Mae'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd wedi'u harchwilio yn fanwl, ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno i ddangos y byddai ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys addysg feithrin ran-amser yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr neu'n rhoi pwysau na ellir ymdopi â nhw ar yr ysgol. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm i Gymru, sydd ill dau wedi'u seilio ar brofiadau sy'n seiliedig ar chwarae sy'n briodol yn ddatblygiadol i blant iau.

Roedd yr ymatebion cefnogol yn tynnu sylw at fanteision gwell mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y pentref, cyfleoedd cryfach ar gyfer trochi'n gynnar yn y Gymraeg, a gwell parhad i blant wrth iddynt drosglwyddo i addysg amser llawn. Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at nodau strategol ehangach, gan gynnwys cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd, a'r adborth a ddaeth i law, mae'r Awdurdod Lleol yn argymell mynd ati i weithredu'r cynnig fel y nodir yn yr Hysbysiad Statudol.

## 11. Y CAMAU NESAF

Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac yna, yn y pen draw, i'r Cyngor Sir, a fydd yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4-11 i 3-11 o 1 Medi 2026.